Newyddlen GISDA Nadolig 2010

Gair o Ddiolch

Ar drothwy'r Nadolig hoffwn ddiolch yn fawr iawn i staff y Cwmni am ei gwaith diflino ac ymroddgar drwy gydol y flwyddyn ac wrth gwrs dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Hoffwn hefyd ddiolch i unigolion ac asiantaethau am ei cydweithrediad er sicrhau gwasanaeth werth chweil i'r ifanc bregus.

Fel nifer o asiantaethau eraill rydym yn gwynebu toriadau mewn grantiau ond mae golau ar ddiwedd y twnel tywyll.

Bu ein cais i'r loteri yn llwyddianus iawn a fydd yn ein galluogi i gynnig gwasanaethau arbennig am o leiaf tair blynedd.

I'r darllenwyr i gyd Dymunwn Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dedwydd

Mair Richards
Prif Weithredwr

W Tudor Owen
Cadeirydd

Newyddion Staff

Rydym wedi dweud ffarwel cynnes i Sonia i Awstralia, Zowie i'r BBC a Delyth i ddechrau ei gyrfa fel athrawes.

Rydym yn croesawu Neil a ymunodd gyda thim De Gwynedd ym mis Awst ond bydd yn ymuno a thîm Gogledd Gwynedd y flwyddyn newydd –

Rydym hefyd yn croesawu Ceri i Dŷ Rhydalun.

Llongyfarchiadau i Jen ar ei swydd newydd fel Uwch - Swyddog Cynllun Gogledd ac hefyd i Elin fel Uwch Weithiwr Allweddol gyda Gogledd Gwynedd.

Llongyfachiadau i: John am ddod yn daid i Alfie bach, Fflur am ddod yn nain i Jack ac hefyd i Caj amrgenedigaeth ei mâb Harry!

Llongyfarchiadau hefyd i Angela am ei chymhwyster fel Technegydd AAT. Da iawn chdi!

Pabell GISDA yn Sioe Môn
Mona,
Awst 2010

Prif Digwyddiau i'w ddod ….

Hawl i Holi
yn Y Galeri,
Caernarfon

11ed Chwefror 2011

Blâs ar
GISDA

Lleoliad a Dydddiad i ddod

Newyddlen GISDA Nadolig 2010

Gair o Ddiolch

Ar drothwy'r Nadolig hoffwn ddiolch yn fawr iawn i staff y Cwmni am ei gwaith diflino ac ymroddgar drwy gydol y flwyddyn ac wrth gwrs dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Hoffwn hefyd ddiolch i unigolion ac asiantaethau am ei cydweithrediad er sicrhau gwasanaeth werth chweil i'r ifanc bregus.

Fel nifer o asiantaethau eraill rydym yn gwynebu toriadau mewn grantiau ond mae golau ar ddiwedd y twnel tywyll.

Bu ein cais i'r loteri yn llwyddianus iawn a fydd yn ein galluogi i gynnig gwasanaethau arbennig am o leiaf tair blynedd.

I'r darllenwyr i gyd Dymunwn Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dedwydd

Mair Richards
Prif Weithredwr

W Tudor Owen
Cadeirydd

Newyddion Staff

Rydym wedi dweud ffarwel cynnes i Sonia i Awstralia, Zowie i'r BBC a Delyth i ddechrau ei gyrfa fel athrawes.

Rydym yn croesawu Neil a ymunodd gyda thim De Gwynedd ym mis Awst ond bydd yn ymuno a thîm Gogledd Gwynedd y flwyddyn newydd –

Rydym hefyd yn croesawu Ceri i Dŷ Rhydalun.

Llongyfarchiadau i Jen ar ei swydd newydd fel Uwch - Swyddog Cynllun Gogledd ac hefyd i Elin fel Uwch Weithiwr Allweddol gyda Gogledd Gwynedd.

Llongyfachiadau i: John am ddod yn daid i Alfie bach, Fflur am ddod yn nain i Jack ac hefyd i Caj amrgenedigaeth ei mâb Harry!

Llongyfarchiadau hefyd i Angela am ei chymhwyster fel Technegydd AAT. Da iawn chdi!

Pabell GISDA yn Sioe Môn
Mona,
Awst 2010

Prif Digwyddiau i'w ddod ….

Hawl i Holi
yn Y Galeri,
Caernarfon

11ed Chwefror 2011

Blâs ar
GISDA

Lleoliad a Dydddiad i ddod

Dyma'r Hyn Da Ni Di Wneud

Pobl Ifanc GISDA yn rhedeg râs10k Gaernarfon Eleni, cymeroedd dau o bobl ifanc GISDA a'c aelod o staff ran yn y râs flynyddol o gwmpas y Foryd yng Nghaernarfon o dan arweiniad Eryri Harriers.

Dywedodd Anthony Williams o Blaenau Ffestiniog, "Mwynhais y râs o ddifri a rwyf yn credu iddo fod yn fuddiol tuag at fy hyfforddiant i ynumo a'r Morlu Frenhinol. Roeddwn yn hapus gyda fy amser a mi fyddaf yn dychwelyd yn ôl y flwyddyn nesaf, gyda'r nod i ennill. Roeddwn yn falch bod GISDA wedi rhoi'r cyfle i mi rhedeg yn y râs. Ddaru Anthony ddarfod y râs mewn amser trawiadol o 42 munudau.

Mae Kelsey Jones, yn gyn rhedwr ieuenctid i Gymru. Fodd bynnag, hwn oedd yr adeg cyntaf iddi rhedeg ers amser maith ac er iddi deimlo'r râs yn annodd, ddaru fwynhau ail afael mewn rhedeg ac yn falch iawn o ddarfod y râs. Mae Kelsey wedi cychwyn ar gwrs gosod briciau yn y coleg ers mis Medi. Mae'n gobeithio cael gyrfa yn y diwydiant adeiladu.

Dywedodd Daniel Hall, aelod o staff iddo yntau fwynhau rhedeg ac iddo sylweddoli bod rhaid ymarfer o hyn ymlaen cyn rhedeg mewn ras. Serch hynny ddaru fwynhau a roedd yn gyfle iddo yntau yn ogystal a'r pobl ifanc wella ei ffitrwydd a chael boddhaod o gyflawnhad. Mae yn gobeithio bydd y ras hwn yn arbrawf i gystadleuthau yn y dyfodol. Marathon Llundain efallai!

Diwrnod Hwyl GISDA ym Mhorthmadog, Medi 12 Ar ôl llawer o ruthro o gwmpas, trefnu, hysbysebu a gofyn am wobrau raffl, ddaru'r diwrnod ddod a mynd cyn i chi gau eich llygaid! A oedd o'n llwyddiannus? Roedd staff a defnyddwyr gwasanaeth GISDA yn sicr yn meddwl hyn.yn ogystal â'r cyfryngau lleol, (adroddiad yn y Caernarfon & Denbigh Herald ar 16 Medi.)

Pan gyrhaeddais y Clwb Chwaraeon am 8.30 y bore ddaru'r nefoedd agor a meddyliais, 'O na, peidiwch â bwrw glaw heddiw! Roedd y tywydd wedi bod yn sych yr holl fordd tan i mi gyrraedd Tremadog, ond, ni fedrwch wneud dim byd am y tywydd ? Nid oedd rhaid i mi boeni , ddaru'r haul dod allan a chawsom brynhawn heulog a braf.

"Rwy'n mwynhau fy swydd newydd fel gweithiwr allweddol yn fawr iawn. Mae wedi rhoi cyfle i mi gael cyfrifoldebau newydd o fewn y tîm sydd wedi fy helpu i ddysgu a thyfu i mewn i'r swydd, ac am hyn rwyf yn ddiolchgar. Mae'r swydd wedi rhoi profiadau i mi buaswn byth wedi cael mewn unrhyw alwedigaeth arall ac mae'r boddhad o'r gwaith yn deimlad gwych."
Neil Jones

Roedd yn wych gweld pawb yn cyrraedd. Roedd yn fwy gwych gweld rhai o'r staff yn cael cystadleuaeth swmo! Aeth y gweithgareddau a drefnwyd yn dda a ddaru'r staff a'r bobl ifanc weithio gyda'i gilydd fel tîm, yn edrych ar ôl y stondinau, cadw trefn ar y maes parcio a'r gemau - diolch yn fawr iawn i chi'i gyd.

Roedd yna nifer o bethau i'w wneud trwy'r dydd fel y cyfle i eistedd tu mewn i beiriant tân, cymryd rhan mewn cystadleuaeth gwisg ffansi, gemau plant, sgorio o'r smotyn, canu carioci (ddaru'r bobl ifanc mwynhau hwn), siopa yn y farchnad, saethyddiaeth, arddangosfa adar ysglyfaethus a gwrando ar gerddoriaeth fyw tu allan ar y patio. Yn ychwanegol i ddathlu 25ain GISDA, roedd hwn yn gyfle hefyd i hyrwyddo gwasanaethau GISDA i'r cyhoedd ac i adael iddynt wybod sut mae GISDA yn cefnogi pobl ifanc ddigartref i fyw bywyd annibynnol a chyflawn.

Lowri Dundee

Dyma'r Hyn Da Ni Di Wneud

NEWYDDLEN Tudalen 2

Pobl Ifanc GISDA yn rhedeg râs10k Gaernarfon Eleni, cymeroedd dau o bobl ifanc GISDA a'c aelod o staff ran yn y râs flynyddol o gwmpas y Foryd yng Nghaernarfon o dan arweiniad Eryri Harriers.

Dywedodd Anthony Williams o Blaenau Ffestiniog, "Mwynhais y râs o ddifri a rwyf yn credu iddo fod yn fuddiol tuag at fy hyfforddiant i ynumo a'r Morlu Frenhinol. Roeddwn yn hapus gyda fy amser a mi fyddaf yn dychwelyd yn ôl y flwyddyn nesaf, gyda'r nod i ennill. Roeddwn yn falch bod GISDA wedi rhoi'r cyfle i mi rhedeg yn y râs. Ddaru Anthony ddarfod y râs mewn amser trawiadol o 42 munudau.

Mae Kelsey Jones, yn gyn rhedwr ieuenctid i Gymru. Fodd bynnag, hwn oedd yr adeg cyntaf iddi rhedeg ers amser maith ac er iddi deimlo'r râs yn annodd, ddaru fwynhau ail afael mewn rhedeg ac yn falch iawn o ddarfod y râs. Mae Kelsey wedi cychwyn ar gwrs gosod briciau yn y coleg ers mis Medi. Mae'n gobeithio cael gyrfa yn y diwydiant adeiladu.

Dywedodd Daniel Hall, aelod o staff iddo yntau fwynhau rhedeg ac iddo sylweddoli bod rhaid ymarfer o hyn ymlaen cyn rhedeg mewn ras. Serch hynny ddaru fwynhau a roedd yn gyfle iddo yntau yn ogystal a'r pobl ifanc wella ei ffitrwydd a chael boddhaod o gyflawnhad. Mae yn gobeithio bydd y ras hwn yn arbrawf i gystadleuthau yn y dyfodol. Marathon Llundain efallai!

Diwrnod Hwyl GISDA ym Mhorthmadog, Medi 12 Ar ôl llawer o ruthro o gwmpas, trefnu, hysbysebu a gofyn am wobrau raffl, ddaru'r diwrnod ddod a mynd cyn i chi gau eich llygaid! A oedd o'n llwyddiannus? Roedd staff a defnyddwyr gwasanaeth GISDA yn sicr yn meddwl hyn.yn ogystal â'r cyfryngau lleol, (adroddiad yn y Caernarfon & Denbigh Herald ar 16 Medi.)

Pan gyrhaeddais y Clwb Chwaraeon am 8.30 y bore ddaru'r nefoedd agor a meddyliais, 'O na, peidiwch â bwrw glaw heddiw! Roedd y tywydd wedi bod yn sych yr holl fordd tan i mi gyrraedd Tremadog, ond, ni fedrwch wneud dim byd am y tywydd ? Nid oedd rhaid i mi boeni , ddaru'r haul dod allan a chawsom brynhawn heulog a braf.

"Rwy'n mwynhau fy swydd newydd fel gweithiwr allweddol yn fawr iawn. Mae wedi rhoi cyfle i mi gael cyfrifoldebau newydd o fewn y tîm sydd wedi fy helpu i ddysgu a thyfu i mewn i'r swydd, ac am hyn rwyf yn ddiolchgar. Mae'r swydd wedi rhoi profiadau i mi buaswn byth wedi cael mewn unrhyw alwedigaeth arall ac mae'r boddhad o'r gwaith yn deimlad gwych."
Neil Jones

Roedd yn wych gweld pawb yn cyrraedd. Roedd yn fwy gwych gweld rhai o'r staff yn cael cystadleuaeth swmo! Aeth y gweithgareddau a drefnwyd yn dda a ddaru'r staff a'r bobl ifanc weithio gyda'i gilydd fel tîm, yn edrych ar ôl y stondinau, cadw trefn ar y maes parcio a'r gemau - diolch yn fawr iawn i chi'i gyd.

Roedd yna nifer o bethau i'w wneud trwy'r dydd fel y cyfle i eistedd tu mewn i beiriant tân, cymryd rhan mewn cystadleuaeth gwisg ffansi, gemau plant, sgorio o'r smotyn, canu carioci (ddaru'r bobl ifanc mwynhau hwn), siopa yn y farchnad, saethyddiaeth, arddangosfa adar ysglyfaethus a gwrando ar gerddoriaeth fyw tu allan ar y patio. Yn ychwanegol i ddathlu 25ain GISDA, roedd hwn yn gyfle hefyd i hyrwyddo gwasanaethau GISDA i'r cyhoedd ac i adael iddynt wybod sut mae GISDA yn cefnogi pobl ifanc ddigartref i fyw bywyd annibynnol a chyflawn.

Lowri Dundee

Dyma'r Hyn Da Ni Di Wneud

Dringo'r Wyddfa Ar 29 Hydref, aeth Neil Jones a fi ac ychydig o'n pobl ifanc a Gary, arweinydd mynydd i geisio cerdded i gopa'r Wyddfa..

Hoffwn ddiolch i Gary, am fod mor garedig a rhoi ei amser fel arweinydd mynydd i fynd a'n pobl ifanc i fyny'r Wyddfa. Roedd o'n arweinydd ardderchog, ac yn fuddiol i'r bobl ifanc oherwydd ei wybodaeth eang o'r lleoliad -felly, diolch mawr i Gary.

Nid oedd un o'r pobl ifanc, sydd wedi symud i Hafan yn ddiweddar, erioed wedi bod i fyny'r Wyddfa, na ddim mynydd arall chwaith. O Fanceinion yn wreiddiol, roedd o'i weld wedi gwirioni gyda'r olygfa anhygoel a chymerodd cyfrifoldeb i fod yn ddyn camera swyddogol. Ddaru o fwynhau tynnu lluniau o'r olygfa a dywedodd ei fod yn falch o gyrraedd y gopa. Sylweddolodd efallai fod ei ysmygu yn gallu bod yn un rheswm pam roedd o'n anadlu'n drwm a disgrifiodd ei ysgyfaint fel teimlad eu bod yn 'sownd a'i gilydd'. Mae o wedi penderfynu trio rhoi'r gorau i ysmygu er mwyn gwella ei iechyd . Pob lwc iddo gyda hyn. Mae dringo'r Wyddfa wedi sbarduno diddordeb newydd ynddo ac mae o wedi gaddo mynd eto, yn ogystal â dringo mynyddoedd eraill mewn amser.

Roedd y person ifanc arall gyda GISDA, yn awyddus i gofrestru gyda'r morlu brenhinol ac wedi bod yn hyfforddi tuag at hyn. Nid oedd yntau wedi bod i fyny'r Wyddfa erioed, ac roedd i'w weld yn mwynhau'r dringo a'r olygfa yn drylwyr. Roedd yn braf iddo cael profiad o'r newidiadau yn y tywydd . Ar un adeg roedd y gweledded yn dda, wedyn aethom i mewn i'r cymylau lle'r oedd yn damp ac yn oer. Pan ddaru ni gyrraedd y gopa (lle medrwch weld dros yr ochr arall ar ddiwrnod clir), roedd yna wyntoedd tymestl yn ein cyfarfod ac roedd pawb yn ymddangos i'w fwynhau! Ar ôl ychydig o ystumiau i'r camera ar y pwynt uchaf, cawsom siocled poeth a brechdanau cyn mynd allan i'r glaw trwm am dipyn cyn i ni ddechrau mynd i lawr o'r gopa ar hyd y trac mochyn. Mae'r profiad hyn yn pwysleisio'r angen am ddillad, offer a gwisg traed iawn.

Dywedodd Matthew (elwir hefyd yn Syr Edmund Hilary)!
"Oll yn oll, diwrnod hynod o dda ac yn fuddiol i'r bobl ifanc."

Yr hyn mae ein pobl ifanc yn dweud:

"Rwyf wedi mwynhau fy amser gyda GISDA a dwi wedi elwa o cwrsi fel Fforwm Theatr a sesiynau coginio. Mae rhain wedi fy helpu i ddechrau gyda hyfforddi mewn pel-droed llawr gwlad."

"Yn ystod y blynyddoedd mae GISDA wedi cefnogi nifer o bobl ifanc trwy adegau anodd yn eu bywydau.
***G**ood*
***I**ndependent*
***S**afe*
***D**ifferent*
***A**ssociation"*

"Mae GISDA wedi fy helpu i gymaint dros y misoedd diwethaf a buaswn yn hoffi diolch i'r staff. Maen nhw'i gyd yn gyfeillgar, croesawus ac yn dallt fy sefyllfa'n gyfan gwbl.
***G**reat*
***I**ncredible*
***S**afety*
***D**az*
***A**mazing"*

5-bob-ochr Cynhaliwyd gem pel-droed 5 bôb ochr ym Mhorthmadog ar 11 Hydref 2010. Roedd y gem rhwng staff GISDA a pobl ifanc o Blaenau a staff GISDA a pobl ifanc o Gaernarfon. Y sgôr oedd Caernarfon 21, Blaenau 13 gyda Andrew yn cael hwyl go ddifri mewn gôl i Blaenau!!

Tîm Caernarfon: Harri, Lucian, Daniel, Kelsey, Ben.

Tîm Blaenau: Andrew, Anthony, Dominic, Luke, Neil J

Dyma'r Hyn Da Ni Di Wneud

NEWYDDLEN Tudalen 3

Dringo'r Wyddfa Ar 29 Hydref, aeth Neil Jones a fi ac ychydig o'n pobl ifanc a Gary, arweinydd mynydd i geisio cerdded i gopa'r Wyddfa..

Hoffwn ddiolch i Gary, am fod mor garedig a rhoi ei amser fel arweinydd mynydd i fynd a'n pobl ifanc i fyny'r Wyddfa. Roedd o'n arweinydd ardderchog, ac yn fuddiol i'r bobl ifanc oherwydd ei wybodaeth eang o'r lleoliad -felly, diolch mawr i Gary.

Nid oedd un o'r pobl ifanc, sydd wedi symud i Hafan yn ddiweddar, erioed wedi bod i fyny'r Wyddfa, na ddim mynydd arall chwaith. O Fanceinion yn wreiddiol, roedd o'i weld wedi gwirioni gyda'r olygfa anhygoel a chymerodd cyfrifoldeb i fod yn ddyn camera swyddogol. Ddaru o fwynhau tynnu lluniau o'r olygfa a dywedodd ei fod yn falch o gyrraedd y gopa. Sylweddolodd efallai fod ei ysmygu yn gallu bod yn un rheswm pam roedd o'n anadlu'n drwm a disgrifiodd ei ysgyfaint fel teimlad eu bod yn 'sownd a'i gilydd'. Mae o wedi penderfynu trio rhoi'r gorau i ysmygu er mwyn gwella ei iechyd . Pob lwc iddo gyda hyn. Mae dringo'r Wyddfa wedi sbarduno diddordeb newydd ynddo ac mae o wedi gaddo mynd eto, yn ogystal â dringo mynyddoedd eraill mewn amser.

Roedd y person ifanc arall gyda GISDA, yn awyddus i gofrestru gyda'r morlu brenhinol ac wedi bod yn hyfforddi tuag at hyn. Nid oedd yntau wedi bod i fyny'r Wyddfa erioed, ac roedd i'w weld yn mwynhau'r dringo a'r olygfa yn drylwyr. Roedd yn braf iddo cael profiad o'r newidiadau yn y tywydd . Ar un adeg roedd y gweledded yn dda, wedyn aethom i mewn i'r cymylau lle'r oedd yn damp ac yn oer. Pan ddaru ni gyrraedd y gopa (lle medrwch weld dros yr ochr arall ar ddiwrnod clir), roedd yna wyntoedd tymestl yn ein cyfarfod ac roedd pawb yn ymddangos i'w fwynhau! Ar ôl ychydig o ystumiau i'r camera ar y pwynt uchaf, cawsom siocled poeth a brechdanau cyn mynd allan i'r glaw trwm am dipyn cyn i ni ddechrau mynd i lawr o'r gopa ar hyd y trac mochyn. Mae'r profiad hyn yn pwysleisio'r angen am ddillad, offer a gwisg traed iawn.

Dywedodd Matthew (elwir hefyd yn Syr Edmund Hilary)!
"Oll yn oll, diwrnod hynod o dda ac yn fuddiol i'r bobl ifanc."

Yr hyn mae ein pobl ifanc yn dweud:

"Rwyf wedi mwynhau fy amser gyda GISDA a dwi wedi elwa o cwrsi fel Fforwm Theatr a sesiynau coginio. Mae rhain wedi fy helpu i ddechrau gyda hyfforddi mewn pel-droed llawr gwlad."

"Yn ystod y blynyddoedd mae GISDA wedi cefnogi nifer o bobl ifanc trwy adegau anodd yn eu bywydau.
***G**ood*
***I**ndependent*
***S**afe*
***D**ifferent*
***A**ssociation"*

"Mae GISDA wedi fy helpu i gymaint dros y misoedd diwethaf a buaswn yn hoffi diolch i'r staff. Maen nhw'i gyd yn gyfeillgar, croesawus ac yn dallt fy sefyllfa'n gyfan gwbl.
***G**reat*
***I**ncredible*
***S**afety*
***D**az*
***A**mazing"*

5-bob-ochr Cynhaliwyd gem pel-droed 5 bôb ochr ym Mhorthmadog ar 11 Hydref 2010. Roedd y gem rhwng staff GISDA a pobl ifanc o Blaenau a staff GISDA a pobl ifanc o Gaernarfon. Y sgôr oedd Caernarfon 21, Blaenau 13 gyda Andrew yn cael hwyl go ddifri mewn gôl i Blaenau!!

Tîm Caernarfon: Harri, Lucian, Daniel, Kelsey, Ben.

Tîm Blaenau: Andrew, Anthony, Dominic, Luke, Neil J

Dyma'r Hyn Da Ni Di Wneud

Noson o Ddathlu Mynychodd dri berson ifanc noson Dathlu Llwyddiannau Pobl Ifanc fel rhan o wythnos Plant a Phobl Ifanc yn Hafan y Môr Pwllheli nos Wener 12 o Dachwedd 2010. Derbyniodd Darren a Laura tystysgrifau am eu llwyddiannau drwy GISDA.

Cafwyd llond bol o fwyd a disgo wedyn i losgi'r calonau!! Roedd pawb wedi mwynhau a hoffwn ddiolch i Amy, Darren a Laura am gynrychioli GISDA.

Diwrnod Glyn Llifon Fel rhan o wythnos plant a phobl ifanc sy'n cael eu gynnal bob blwyddyn gan Cyngor Gwynedd roedd GISDA yn rhan o grwp tasg oedd yn trefnu diwrnod gweithgaredd a gwybodaeth yn Glynllifon ar ddydd Mercher 10fed o Dachwedd 2010 .Bu i oddeutu 85 o bobl ifanc blwyddyn 9 Ysgolion Uwchradd Gwynedd fynychu a chymered rhan mewn `orientering', archery, bocswn, gweithdy llechi, gweithdy metal a cael cyfle i chware gyda gweithgareddau'r Swyddogion Chware Cyngor Gwynedd. Roedd yna amryw o asiantaethau yno i ddarparu gwybodaeth i bobl ifanc. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus ofnadwy, a gafodd ei ddarlledu ar Wedi 3.
Catrin Roberts

"Dwi di bod yn y swydd ers dros 3 mis rwan. Rili yn mwynhau fy rôl ag yn falch fod genai sialens newydd. Dwi di bod yn ffodus iawn i fedru gweithio fy hyn i fyny yn y cwmni a dwi di cyraedd fy ngôl, felly dwi ddim yn bwriadu trio am swydd Mair blwyddyn nesa! Edrych ymlaen ir dyfodol a symud y cynllun ymlaen."
Jen

Menter Cymdeithasol Mae mentrau cymdeithasol yn fusnesau sydd yn cael eu gyrru gan les cymdeithasol neu amgylcheddol. Fel pob busnes maent yn cystadlu i ddarparu gwasanaethau a nwyddau. Y gwahaniaeth ydy fod yna bwrpas cymdeithasol a/neu amgylcheddol wrth wraidd y busnes, mae unrhyw elw sydd yn cael ei wneud yn cael ei ail-fuddsoddi felly er mwyn lles cymdeithasol a/neu amgylcheddol. Yr enghreifftiau amlycaf ydy'r Big Issue, bwyty Jamie Oliver - Fifteen, a'r cwmni siocled Divine Chocolate.

Mae mentrau cymdeithasol yn bodoli yn fwy neu lai pob diwydiant o fewn y DU, o iechyd a gofal cymdeithasol i ynni adnewyddol, o fanwerthu i ailgylchu, o gyflogaeth i chwaraeon, o gartrefi i addysg. Beth bynnag maent yn wneud, maent yn ei wneud yn wahanol i fusnesau arferol oherwydd bod lles cymdeithasol a'r gymuned leol wrth wraidd y busnes.

Mae GISDA yn ymchwilio i mewn i greu Menter Gymdeithasol efo cefnogaeth yllywodraeth y Cynulliad. Mae criw o bobl ifanc wedi dod i fyny efo'r syniad o agor caffi efo themâu dringo a chanolfan ym Mlaenau Ffestiniog. Rydym eisoes wedi bod yn edrych ar wahanol adeiladau a all fod yn addas. Y cam nesaf rŵan ydi gweithio ar astudiaeth dichonoldeb a chynllun busnes. Byddwn wedyn yn mynd ati i chwilio am ffynonellau arian i wireddu'r syniad.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect yma cysylltwch ag Elin Meirion yng Nghaernarfon neu Iola McMullen ym Mlaenau Ffestiniog.

Llwybr Llwyddiant Llongyfarchiadau i un ar ddeg o'n defnyddwyr gwasanaeth ar gwblhau unedau Llwybr Llwyddiant a derbyn tystysgrifau. Da iawn pob un ohonoch ar eich llwyddiant.
Wendi Jones

NEWYDDLEN Tudalen 4

Dyma'r Hyn Da Ni Di Wneud

Noson o Ddathlu Mynychodd dri berson ifanc noson Dathlu Llwyddiannau Pobl Ifanc fel rhan o wythnos Plant a Phobl Ifanc yn Hafan y Môr Pwllheli nos Wener 12 o Dachwedd 2010. Derbyniodd Darren a Laura tystysgrifau am eu llwyddiannau drwy GISDA.

Cafwyd llond bol o fwyd a disgo wedyn i losgi'r calonau!! Roedd pawb wedi mwynhau a hoffwn ddiolch i Amy, Darren a Laura am gynrychioli GISDA.

Diwrnod Glyn Llifon Fel rhan o wythnos plant a phobl ifanc sy'n cael eu gynnal bob blwyddyn gan Cyngor Gwynedd roedd GISDA yn rhan o grwp tasg oedd yn trefnu diwrnod gweithgaredd a gwybodaeth yn Glynllifon ar ddydd Mercher 10fed o Dachwedd 2010 .Bu i oddeutu 85 o bobl ifanc blwyddyn 9 Ysgolion Uwchradd Gwynedd fynychu a chymered rhan mewn `orientering', archery, bocswn, gweithdy llechi, gweithdy metal a cael cyfle i chware gyda gweithgareddau'r Swyddogion Chware Cyngor Gwynedd. Roedd yna amryw o asiantaethau yno i ddarparu gwybodaeth i bobl ifanc. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus ofnadwy, a gafodd ei ddarlledu ar Wedi 3.
Catrin Roberts

"Dwi di bod yn y swydd ers dros 3 mis rwan. Rili yn mwynhau fy rôl ag yn falch fod genai sialens newydd. Dwi di bod yn ffodus iawn i fedru gweithio fy hyn i fyny yn y cwmni a dwi di cyraedd fy ngôl, felly dwi ddim yn bwriadu trio am swydd Mair blwyddyn nesa! Edrych ymlaen ir dyfodol a symud y cynllun ymlaen."
Jen

Menter Cymdeithasol Mae mentrau cymdeithasol yn fusnesau sydd yn cael eu gyrru gan les cymdeithasol neu amgylcheddol. Fel pob busnes maent yn cystadlu i ddarparu gwasanaethau a nwyddau. Y gwahaniaeth ydy fod yna bwrpas cymdeithasol a/neu amgylcheddol wrth wraidd y busnes, mae unrhyw elw sydd yn cael ei wneud yn cael ei ail-fuddsoddi felly er mwyn lles cymdeithasol a/neu amgylcheddol. Yr enghreifftiau amlycaf ydy'r Big Issue, bwyty Jamie Oliver - Fifteen, a'r cwmni siocled Divine Chocolate.

Mae mentrau cymdeithasol yn bodoli yn fwy neu lai pob diwydiant o fewn y DU, o iechyd a gofal cymdeithasol i ynni adnewyddol, o fanwerthu i ailgylchu, o gyflogaeth i chwaraeon, o gartrefi i addysg. Beth bynnag maent yn wneud, maent yn ei wneud yn wahanol i fusnesau arferol oherwydd bod lles cymdeithasol a'r gymuned leol wrth wraidd y busnes.

Mae GISDA yn ymchwilio i mewn i greu Menter Gymdeithasol efo cefnogaeth yllywodraeth y Cynulliad. Mae criw o bobl ifanc wedi dod i fyny efo'r syniad o agor caffi efo themâu dringo a chanolfan ym Mlaenau Ffestiniog. Rydym eisoes wedi bod yn edrych ar wahanol adeiladau a all fod yn addas. Y cam nesaf rŵan ydi gweithio ar astudiaeth dichonoldeb a chynllun busnes. Byddwn wedyn yn mynd ati i chwilio am ffynonellau arian i wireddu'r syniad.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect yma cysylltwch ag Elin Meirion yng Nghaernarfon neu Iola McMullen ym Mlaenau Ffestiniog.

Llwybr Llwyddiant Llongyfarchiadau i un ar ddeg o'n defnyddwyr gwasanaeth ar gwblhau unedau Llwybr Llwyddiant a derbyn tystysgrifau. Da iawn pob un ohonoch ar eich llwyddiant.
Wendi Jones

Hafan 21ed Ar nos Iau 21 o Hydref 2010 bu i bobl ifanc a staff GISDA ddathlu penblwydd arbennig Hafan, yr hostel yn Nghaernarfon. Mae Hafan wedi darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc bregus ers 21 o flynyddoedd.

Bu i aelod staff, Lynda Roberts, ysgrifennu cerdd ar gyfer yr achlyusr sy'n crynhoi'r hyn mae pawb yn ei deimlo am yr hostel.

HAFAN — My Life

It's been 21 years
Since I opened my door
Giving shelter to people
And a whole lot more

I'm a hostel, a haven
Even heaven to some
When there is nowhere
It's to me they come

I'm caring, I'm warm
I'm safe, I'm your home
And when you're with me
You're never alone

I'll carry on helping
Through trouble and strife
Every young person
From all walks of life

So here's for another
21 years
Supporting young people
And drying their tears

I'd like to thank you
To everyone I know
For making me HAFAN
The 'in' place to go

Lynda Roberts

DYMA'R HYN DA NI DI WNEUD

NEWYDDLEN Tudalen 5



Hafan 21ed Ar nos Iau 21 o Hydref 2010 bu i bobl ifanc a staff GISDA ddathlu penblwydd arbennig Hafan, yr hostel yn Nghaernarfon. Mae Hafan wedi darparu llety a chefnogaeth i bobl ifanc bregus ers 21 o flynyddoedd.

Bu i aelod staff, Lynda Roberts, ysgrifennu cerdd ar gyfer yr achlyusr sy'n crynhoi'r hyn mae pawb yn ei deimlo am yr hostel.

HAFAN — My Life

It's been 21 years
Since I opened my door
Giving shelter to people
And a whole lot more

I'm a hostel, a haven
Even heaven to some
When there is nowhere
It's to me they come

I'm caring, I'm warm
I'm safe, I'm your home
And when you're with me
You're never alone

I'll carry on helping
Through trouble and strife
Every young person
From all walks of life

So here's for another
21 years
Supporting young people
And drying their tears

I'd like to thank you
To everyone I know
For making me HAFAN
The 'in' place to go

Lynda Roberts

Dealltwriaeth — Fforwm Theatr

Unwaith eto, braf oedd cael cyfle i gydweithio â chriw o bobl ifanc GISDA er mwyn creu perfformiad o theatr fforwm ar gyfer diwrnod plant a phobl ifanc Gwynedd.

Roedd 7 o bobl ifanc yn y grŵp yn gymysgedd o ran oedran a phrofiadau yn ymwneud â digartrefedd. Perfformiad wedi selio ar brofiadau unigolion sydd yn cael eu cyfleu yn y darn theatr, profiadau amhleserus a real sy'n rhoi gwir ddarlun o anawsterau sy'n wynebu'r Digartref yma yng Ngwynedd.

Theatr rhyngweithiol yw theatr fforwm sydd yn rhoi cyfle i'r gynulleidfa gymysgu â'r cymeriadau ar y llwyfan. Drwy annog pobl o'r gynulleidfa i rhyngweithio â'r theatr mae modd gweld dulliau gwahanol, syniadau a phosibiliadau ar gyfer goresgyn ac atal digartrefedd.

Cafwyd perfformiad oedd yn canolbwyntio ar un cymeriad, merch ugain oed oedd yn gweithio rhan amser ac yn mynychu'r coleg. Roedd y ferch yn byw gyda'i chariad yn ei fflat. Cymeriad eithaf anghynnes oedd y cariad, wedi iddo dreulio dwy flynedd yn y carchar am werthu cyffuriau, cafodd denantiaeth gan yr awdurdod lleol yn unol a chyfraith gwlad.

Roedd yn amlwg o'r cychwyn bod y cariad dal yn ymwneud ac yn cymeryd cyffuriau. Ar ôl i'r cariad fod yn snwffio llond trwyn o gocên drwy'r dydd dychwelodd y ferch yn ôl adref. Bu i'r cwpwl gael ffrae, oherwydd bod y cariad yn honni nad oedd y ferch wedi talu rent, yn amlwg roedd y ferch wedi talu rent ond bod y cariad wedi defnyddio'r arian i brynu cocên. Diwedd y gân, bu i'r cariad orfodi'r ferch adael y fflat heb ei eiddo, arian neu ffon symudol. Roedd hi bellach yn 6y.h.

Penderfynodd y ferch ymweld â'i mam, eglurodd y sefyllfa a gofyn os byddai modd iddi gael aros am noson neu ddwy? Roedd y fam wedi ailbriodi a gyda dau o blant bach yn byw yn y tŷ. Rhannodd y fam y byddai'n trafod y mater gyda'i gwr. Yn anffodus nid oedd y gwr yn barod i help ei lysferch. Rhannodd y gwr nad oedd am rhoi ei deulu mewn perygl gan bod hyn wedi digwydd o'r blaen, roedd yn pryderu y byddai'r cariad yn dod i chwilio am y ferch ac yn rhoi pawb arall mewn perygl. Bu i'r fam geisio rhesymu ond gorfododd y llys dad i'r ferch adael. Roedd hi bellach yn 8y.h.

Yn rhan olaf y perfformiad gwelwyd y ferch yn yr orsaf drên, gwelodd hen gyfaill a gofynnodd os byddai modd cael benthyg arian i brynu tocyn, yn anffodus doedd ganddo ddim arian i'w roi. Doedd dim dewis gan y ferch ond i aros noson yn yr orsaf. Gorffennodd yr olygfa gyda dyn amheus yn ceisio dal sylw'r ferch yn yr orsaf, yn amlwg roedd y dyn yn ceisio ymharddu ar y ferch, mae'n gafael yn ei braich ac mae'r perfformiad yn gorffen.

Be digwyddodd i'r ferch? Bu'r dyn ymosod arni? A fydd rhai iddo aros noson yn yr orsaf? Dim ond rhai o gwestiynau oedd yn gwynebu'r gynulleidfa.

Roedd y perfformiad yn hynod effeithiol ac yn bendant yn dal sylw unigolion. Does dim dwywaith bod theatr fforwm yn gwneud i unigolion yn y gynulleidfa feddwl o ddifri am yr hyn sy'n cael eu gyfleu yn y perfformiad.

Cafwyd nifer o'r gynulleidfa yn newid â chymeriad y ferch ar y llwyfan er mwyn ceisio datrys y broblem yn ogystal cafwyd trafodaethau ynglŷn â gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc ac syniadau ar sut i wella gwasanaethau. Gwir fantais theatr fforwm; mae'n ysgogi trafodaeth ac yn dod a unigolion o gymunedau at ei gilydd er mwyn ceisio datrys anawsterau cymdeithasol.

Ni fyddai'r perfformiad wedi bod yn bosib heb ymroddiad diddiwedd 7 o bobl ifanc GISDA. Yn bendant mae angen diolch iddynt am gytuno i rannu eu profiadau ac eraill, dyma brofiadau sydd nawr yn addysgu ac yn codi ymwybyddiaeth o broblemau digartrefedd i eraill.

Llongyfarchiadau.
Osian

I mi, mae Fforwm Theatr yn un o'r pethau gorau dwi erioed wedi ei wneud. Pan roeddwn i eisiau perfformio am y tro cyntaf, roeddwn mor ofnus o fod o flaen gynulleidfa byw, ond ar ôl y perfformiad yn Barcelona hoffais hwn cymaint, roedd y teimlad gefais wedyn yn anhygoel.

Beth ddaru wneud i mi ei fwynhau cymaint oedd pan ddaeth aelodau'r gynulleidfa i fyny a chymryd lle'r prif gymeriad; roedd hyn yn ardderchog. Hefyd, dim ond ychydig o ddyddiau oedd gennym i ymarfer ond pan ddaeth pob dim at ei gilydd roedd y profiad yn anhygoel.

Pan gefais y cyfle i berfformio eto nid oedd rhaid i mi feddwl ddwywaith. Rwy'n mwynhau bob munud ohono ac, i mi, mae'r Fforwm Theatr wedi newid fi fel person ac am hynny dwi'n ddiolchgar.

NEWYDDLEN Tudalen 6

Dealltwriaeth — Fforwm Theatr

Unwaith eto, braf oedd cael cyfle i gydweithio â chriw o bobl ifanc GISDA er mwyn creu perfformiad o theatr fforwm ar gyfer diwrnod plant a phobl ifanc Gwynedd.

Roedd 7 o bobl ifanc yn y grŵp yn gymysgedd o ran oedran a phrofiadau yn ymwneud â digartrefedd. Perfformiad wedi selio ar brofiadau unigolion sydd yn cael eu cyfleu yn y darn theatr, profiadau amhleserus a real sy'n rhoi gwir ddarlun o anawsterau sy'n wynebu'r Digartref yma yng Ngwynedd.

Theatr rhyngweithiol yw theatr fforwm sydd yn rhoi cyfle i'r gynulleidfa gymysgu â'r cymeriadau ar y llwyfan. Drwy annog pobl o'r gynulleidfa i rhyngweithio â'r theatr mae modd gweld dulliau gwahanol, syniadau a phosibiliadau ar gyfer goresgyn ac atal digartrefedd.

Cafwyd perfformiad oedd yn canolbwyntio ar un cymeriad, merch ugain oed oedd yn gweithio rhan amser ac yn mynychu'r coleg. Roedd y ferch yn byw gyda'i chariad yn ei fflat. Cymeriad eithaf anghynnes oedd y cariad, wedi iddo dreulio dwy flynedd yn y carchar am werthu cyffuriau, cafodd denantiaeth gan yr awdurdod lleol yn unol a chyfraith gwlad.

Roedd yn amlwg o'r cychwyn bod y cariad dal yn ymwneud ac yn cymeryd cyffuriau. Ar ôl i'r cariad fod yn snwffio llond trwyn o gocên drwy'r dydd dychwelodd y ferch yn ôl adref. Bu i'r cwpwl gael ffrae, oherwydd bod y cariad yn honni nad oedd y ferch wedi talu rent, yn amlwg roedd y ferch wedi talu rent ond bod y cariad wedi defnyddio'r arian i brynu cocên. Diwedd y gân, bu i'r cariad orfodi'r ferch adael y fflat heb ei eiddo, arian neu ffon symudol. Roedd hi bellach yn 6y.h.

Penderfynodd y ferch ymweld â'i mam, eglurodd y sefyllfa a gofyn os byddai modd iddi gael aros am noson neu ddwy? Roedd y fam wedi ailbriodi a gyda dau o blant bach yn byw yn y tŷ. Rhannodd y fam y byddai'n trafod y mater gyda'i gwr. Yn anffodus nid oedd y gwr yn barod i help ei lysferch. Rhannodd y gwr nad oedd am rhoi ei deulu mewn perygl gan bod hyn wedi digwydd o'r blaen, roedd yn pryderu y byddai'r cariad yn dod i chwilio am y ferch ac yn rhoi pawb arall mewn perygl. Bu i'r fam geisio rhesymu ond gorfododd y llys dad i'r ferch adael. Roedd hi bellach yn 8y.h.

Yn rhan olaf y perfformiad gwelwyd y ferch yn yr orsaf drên, gwelodd hen gyfaill a gofynnodd os byddai modd cael benthyg arian i brynu tocyn, yn anffodus doedd ganddo ddim arian i'w roi. Doedd dim dewis gan y ferch ond i aros noson yn yr orsaf. Gorffennodd yr olygfa gyda dyn amheus yn ceisio dal sylw'r ferch yn yr orsaf, yn amlwg roedd y dyn yn ceisio ymharddu ar y ferch, mae'n gafael yn ei braich ac mae'r perfformiad yn gorffen.

Be digwyddodd i'r ferch? Bu'r dyn ymosod arni? A fydd rhai iddo aros noson yn yr orsaf? Dim ond rhai o gwestiynau oedd yn gwynebu'r gynulleidfa.

Roedd y perfformiad yn hynod effeithiol ac yn bendant yn dal sylw unigolion. Does dim dwywaith bod theatr fforwm yn gwneud i unigolion yn y gynulleidfa feddwl o ddifri am yr hyn sy'n cael eu gyfleu yn y perfformiad.

Cafwyd nifer o'r gynulleidfa yn newid â chymeriad y ferch ar y llwyfan er mwyn ceisio datrys y broblem yn ogystal cafwyd trafodaethau ynglŷn â gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc ac syniadau ar sut i wella gwasanaethau. Gwir fantais theatr fforwm; mae'n ysgogi trafodaeth ac yn dod a unigolion o gymunedau at ei gilydd er mwyn ceisio datrys anawsterau cymdeithasol.

Ni fyddai'r perfformiad wedi bod yn bosib heb ymroddiad diddiwedd 7 o bobl ifanc GISDA. Yn bendant mae angen diolch iddynt am gytuno i rannu eu profiadau ac eraill, dyma brofiadau sydd nawr yn addysgu ac yn codi ymwybyddiaeth o broblemau digartrefedd i eraill.

Llongyfarchiadau.
Osian

I mi, mae Fforwm Theatr yn un o'r pethau gorau dwi erioed wedi ei wneud. Pan roeddwn i eisiau perfformio am y tro cyntaf, roeddwn mor ofnus o fod o flaen gynulleidfa byw, ond ar ôl y perfformiad yn Barcelona hoffais hwn cymaint, roedd y teimlad gefais wedyn yn anhygoel.

Beth ddaru wneud i mi ei fwynhau cymaint oedd pan ddaeth aelodau'r gynulleidfa i fyny a chymryd lle'r prif gymeriad; roedd hyn yn ardderchog. Hefyd, dim ond ychydig o ddyddiau oedd gennym i ymarfer ond pan ddaeth pob dim at ei gilydd roedd y profiad yn anhygoel.

Pan gefais y cyfle i berfformio eto nid oedd rhaid i mi feddwl ddwywaith. Rwy'n mwynhau bob munud ohono ac, i mi, mae'r Fforwm Theatr wedi newid fi fel person ac am hynny dwi'n ddiolchgar.

Gronfa'r Loteri Fawr

LOTTERY FUNDED

Mae GISDA wedi derbyn grant o £289,075 gan Gronfa'r Loteri Fawr. Mae'r arian ar gyfer adeiladu ar ein cynllun Llwybr Llwyddiant.

Prosiect Agor Drysau fydd enw'r prosiect newydd. Yn ogystal â chynnig unedau wedi eu hachredu drwy Agored Cymru bydd y prosiect yn ariannu cyfres o weithdai a gweithgareddau diddorol a heriol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth GISDA. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i ymgymryd â gweithgareddau ehangach fel cyfnewidfeydd ieuenctid, cyfleoedd i hwylio neu fynychu cyrsiau arbenigol.

Bydd Prosiect Agor Drysau hefyd yn cynnwys gwasanaeth cymodi, sef gwasanaeth diduedd fydd yn cynnig cymorth a chefnogaeth i geisio adnabod ffyrdd o ail-sefydlu perthynas gyda teuluoedd. Mae hwn yn hwb arbennig i GISDA a gobeithiwn weld y prosiect yn ei le ac yn barod i gychwyn erbyn diwedd Mawrth 2011.

Yr hyn mae ein pobl ifanc yn dweud:

"Fantashtish! Byddai'n ymestyn y gefnogaeth i ddiwallu anghenion pobl ifanc heddiw ac yfory."

"Credaf bydd yr arian yn cael ei wario'n ddoeth ac mae'n wych bod GISDA wedi cael y cyfle i helpu pobl."

"Dwi'n meddwl ei fod yn wych oherwydd mae'n golygu cefnogaeth i bobl ifanc."

"Dylai hwn fod yn dda i helpu gyda datblygu ac addysg."

"Mae'n wych eich bod wedi cael yr arian - Da iawn chi."

"Mae'n wych os mae'n cael ei ddefnyddio'n iawn. Gwych!"

NEWYDDLEN Tudalen 7

Gronfa'r Loteri Fawr

LOTTERY FUNDED

Mae GISDA wedi derbyn grant o £289,075 gan Gronfa'r Loteri Fawr. Mae'r arian ar gyfer adeiladu ar ein cynllun Llwybr Llwyddiant.

Prosiect Agor Drysau fydd enw'r prosiect newydd. Yn ogystal â chynnig unedau wedi eu hachredu drwy Agored Cymru bydd y prosiect yn ariannu cyfres o weithdai a gweithgareddau diddorol a heriol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth GISDA. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i ymgymryd â gweithgareddau ehangach fel cyfnewidfeydd ieuenctid, cyfleoedd i hwylio neu fynychu cyrsiau arbenigol.

Bydd Prosiect Agor Drysau hefyd yn cynnwys gwasanaeth cymodi, sef gwasanaeth diduedd fydd yn cynnig cymorth a chefnogaeth i geisio adnabod ffyrdd o ail-sefydlu perthynas gyda teuluoedd. Mae hwn yn hwb arbennig i GISDA a gobeithiwn weld y prosiect yn ei le ac yn barod i gychwyn erbyn diwedd Mawrth 2011.

Yr hyn mae ein pobl ifanc yn dweud:

"Fantashtish! Byddai'n ymestyn y gefnogaeth i ddiwallu anghenion pobl ifanc heddiw ac yfory."

"Credaf bydd yr arian yn cael ei wario'n ddoeth ac mae'n wych bod GISDA wedi cael y cyfle i helpu pobl."

"Dwi'n meddwl ei fod yn wych oherwydd mae'n golygu cefnogaeth i bobl ifanc."

"Dylai hwn fod yn dda i helpu gyda datblygu ac addysg."

"Mae'n wych eich bod wedi cael yr arian - Da iawn chi."

"Mae'n wych os mae'n cael ei ddefnyddio'n iawn. Gwych!"

Y Ffocws ar ….. Mair Richards



Y rhifyn gyntaf o erthyglau bur yn roi ffocws ar pobl ni, meddyliwn buasem yn cychwyn gyda Mair.

Beth yw eich swydd? *Prif-Weithredwr – dechreuais fel gweithiwr allweddol rhan-amser yn hostel GISDA yng Nghaernarfon dros 20 mlynedd yn ôl. Byddaf yn ymddeol mis Tachwedd 2011—teimladau cymysg iawn*

Ewch a ni drwy eich wythnos arferol. *Dim fath o beth a wythnos arferol – Medraf fod yn cynrychioli'r cwmni ar niferoedd o bartneriaethau/grwpiau; delio â mater o amddiffyn plentyn; trafod ariannu/gwasanaethau; cysylltu gyda asiantaethau eraill/unigolion/mynychu cyfar-fodydd mewnol/hyfforddi staff/cyfarfod gyda defnyddwyr gwasanaeth*

Beth rydych chi'n feddwl ydi'r rhan gorau o'ch swydd a pam? *– Gweld person ifanc yn llwyddo – gall fod byw yn annibynol, cael swydd, mynychu hyfforddiant, cysylltu a'u teulu.*

Dywedwch wrthom amdan eich hobiau a'ch diddordebau. *Ar y funud nid oes gen i lawer o amser i hobiau. Rwy'n mwynhau dawnsio llinell, yn ysgrifennyddes i glwb pel-droed ieuenctid yn lleol, yn aelod o elusennau amrywiol, mwynhau darllen a gwneud posau croesair ac yn ddiwethaf ond nid yn lleiaf, mynd a'r ci am dro.*

Pwy rydych chi'n edmygu a pam? *- Un o'r rhai dwi'n edmygu yw Nelson Mandela, cyn Llywydd o De Africa a'r cyntaf i'w ethol drwy etholiad hollol democrataidd. Bu Mandela yn y carchar am saith mlynedd ag ugain oherwydd ei frwydyr yn erbyn "apartheid". Ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar bu yn cefnogi'r drafodaeth yn ogystal a chymodi er mwyn datblygu democratiaeth aml-hiliol yn y wlad. Am ei waith, mae wedi derbyn mwy na 250 o wobrau, a'r mwyaf nodedig o'r gwobrau hyn, mae'n debyg 1993 Gwobr Heddwch Nobel.*

"Mae pawb yn GISDA wedi bod yn hynod o groesawgar a chyfeillgar ers i mi ddechrau ym mis Awst. Rwy'n edmygu'r gwaith caled sydd yn cael ei wneud gan y tîm er mwyn cynnig cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc yn yr ardal. Cefais foddhad o'r mwyaf yn cydweithio gydag aelodau o'r staff wrth baratoi am y Diwrnod Hwyl. Rwy'n cyflawni tasgau newydd yn y gweithle pob dydd sydd yn gwneud y gwaith ei hun yn ddiddorol."

Ceri Parry

Yr hyn mae ein pobl ifanc yn dweud:

"Mae GISDA yn asiantaeth wych sydd yn helpu pobl ifanc i sefyll ar eu traed eu hunain. Mae GISDA yn helpu pobl ifanc i drio gwahanol weithgareddau - beicio mynydd, Fforwm Theatr, diwrnod hwyl, sesiynau coginio. Mae'r rhain yn eich helpu i fod yn fwy hyderus.
***G**uidance*
***I**s*
***S**een*
***D**uring*
***A** smile"*

"Yn gweithio gyda GISDA er mwyn diwallu anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc anghenus yma yng Ngwynedd. Y gwasanaeth mae GISDA'n ei gynnig yn rhan o'r fframwaith ddarpariaeth sydd wedi ei gomisiynu gan Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd a'r cynlluniau sydd wedi eu hariannu gan GISDA'n uniongyrchol. Mae hyn yn enghraifft lle mae mwy'n gallu cael ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth nac fel asiantaethau unigol."

Gwen Carrington
Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd

Cysylltwch a ni

Tŷ Rhydalun
Penrallt Uchaf
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PR

Ffon 01286 671153

Ffacs 01286 671182
gisda@gisda.co.uk

NEWYDDLEN Tudalen 8

Y Ffocws ar ….. Mair Richards

Y rhifyn gyntaf o erthyglau bur yn roi ffocws ar pobl ni, meddyliwn buasem yn cychwyn gyda Mair.

Beth yw eich swydd? *Prif-Weithredwr – dechreuais fel gweithiwr allweddol rhan-amser yn hostel GISDA yng Nghaernarfon dros 20 mlynedd yn ôl. Byddaf yn ymddeol mis Tachwedd 2011—teimladau cymysg iawn*

Ewch a ni drwy eich wythnos arferol. *Dim fath o beth a wythnos arferol – Medraf fod yn cynrychioli'r cwmni ar niferoedd o bartneriaethau/grwpiau; delio â mater o amddiffyn plentyn; trafod ariannu/gwasanaethau; cysylltu gyda asiantaethau eraill/unigolion/mynychu cyfar-fodydd mewnol/hyfforddi staff/cyfarfod gyda defnyddwyr gwasanaeth*

Beth rydych chi'n feddwl ydi'r rhan gorau o'ch swydd a pam? *– Gweld person ifanc yn llwyddo – gall fod byw yn annibynol, cael swydd, mynychu hyfforddiant, cysylltu a'u teulu.*

Dywedwch wrthom amdan eich hobiau a'ch diddordebau. *Ar y funud nid oes gen i lawer o amser i hobiau. Rwy'n mwynhau dawnsio llinell, yn ysgrifennyddes i glwb pel-droed ieuenctid yn lleol, yn aelod o elusennau amrywiol, mwynhau darllen a gwneud posau croesair ac yn ddiwethaf ond nid yn lleiaf, mynd a'r ci am dro.*

Pwy rydych chi'n edmygu a pam? *- Un o'r rhai dwi'n edmygu yw Nelson Mandela, cyn Llywydd o De Africa a'r cyntaf i'w ethol drwy etholiad hollol democrataidd. Bu Mandela yn y carchar am saith mlynedd ag ugain oherwydd ei frwydyr yn erbyn "apartheid". Ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar bu yn cefnogi'r drafodaeth yn ogystal a chymodi er mwyn datblygu democratiaeth aml-hiliol yn y wlad. Am ei waith, mae wedi derbyn mwy na 250 o wobrau, a'r mwyaf nodedig o'r gwobrau hyn, mae'n debyg 1993 Gwobr Heddwch Nobel.*

"Mae pawb yn GISDA wedi bod yn hynod o groesawgar a chyfeillgar ers i mi ddechrau ym mis Awst. Rwy'n edmygu'r gwaith caled sydd yn cael ei wneud gan y tîm er mwyn cynnig cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc yn yr ardal. Cefais foddhad o'r mwyaf yn cydweithio gydag aelodau o'r staff wrth baratoi am y Diwrnod Hwyl. Rwy'n cyflawni tasgau newydd yn y gweithle pob dydd sydd yn gwneud y gwaith ei hun yn ddiddorol."

Ceri Parry

Yr hyn mae ein pobl ifanc yn dweud:

"Mae GISDA yn asiantaeth wych sydd yn helpu pobl ifanc i sefyll ar eu traed eu hunain. Mae GISDA yn helpu pobl ifanc i drio gwahanol weithgareddau - beicio mynydd, Fforwm Theatr, diwrnod hwyl, sesiynau coginio. Mae'r rhain yn eich helpu i fod yn fwy hyderus.
***G**uidance*
***I**s*
***S**een*
***D**uring*
***A** smile"*

"Yn gweithio gyda GISDA er mwyn diwallu anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc anghenus yma yng Ngwynedd. Y gwasanaeth mae GISDA'n ei gynnig yn rhan o'r fframwaith ddarpariaeth sydd wedi ei gomisiynu gan Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd a'r cynlluniau sydd wedi eu hariannu gan GISDA'n uniongyrchol. Mae hyn yn enghraifft lle mae mwy'n gallu cael ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth nac fel asiantaethau unigol."

Gwen Carrington
Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd

Cysylltwch a ni

Tŷ Rhydalun
Penrallt Uchaf
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PR

Ffon 01286 671153

Ffacs 01286 671182
gisda@gisda.co.uk